

## Gweithgaredd 1: Archwilio Rhythmau

Bydd y gerddorfa'n chwarae 'Mambo' o *Symphonic Dances*, 'West Side Story', gan Bernstein.

Gwrandewch yn ofalus am y cyfarwyddiadau yn ystod y wers. Pan mae'r gerddorfa'n chwarae, ceisiwch stampio eich traed i guriad y gerddoriaeth.

Pan fyddwch chi'n dechrau ar gyfansoddiad – darn o gerddoriaeth – gallwch geisio defnyddio rhythm iaith (rhythm dweud geiriau) i ddechrau deall patrymau rhythmig diddorol.

Er enghraifft, rydym wedi defnyddio'r ddau gymal isod i greu dau far sy'n cynnwys rhythm.

**4**  
**4**

**Ten Pie-ces Par-ty**  
Deg Darn yn Dawns-io

**Shake your bo-dy now**  
Daws-iwch dawns-iwch nawr

Gallwch greu patrwm rhythmig hirach drwy ailadrodd y patrymau hyn neu newid y drefn. Ceisiwch ddefnyddio'r ddau batrwm rhythmig rydym ni wedi'u creu o'r cymal i wneud rhythm hirach pedwar bar.

<p><b>Bar A:</b></p> <p><b>Ten Pie-ces Par-ty</b></p>	<p><b>Bar B:</b></p> <p><b>Shake your bo-dy now</b></p>
---	---

Felly, er enghraifft, gallech ailadrodd Bar A bedair gwaith i gael rhythm pedwar bar (AAAA):

**4**  
**4**

Ten Pie-ces Par-ty Ten Pie-ces Par-ty Ten Pie-ces Par-ty Ten Pie-ces Par-ty

Ceisiwch glapio eich rhythm hirach a'i hysgrifennu isod, neu defnyddiwch lythrennau'r bar (er enghraifft AABB, ABAB):

<p><b>4</b> <b>4</b></p> <hr style="border: none; border-top: 1px solid black; margin: 5px 0;"/>
--

Gofynnwch i'ch athro anfon eich rhythmau atom yn [live.lessons@bbc.co.uk](mailto:live.lessons@bbc.co.uk) cyn neu yn ystod y Wers Fyw ac fe allent ymddangos ar y rhaglen fyw.